

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.15 Cefnogi gwirfoddolwyr anodd eu lleoli



Mae gwirfoddoli yn atyniadol i lawer o bobl ag anghenion amrywiol. Mae'r sector gwirfoddol yn benderfynol o frwydro yn erbyn gwahaniaethu, cynnig ffyrdd arloesol i bobl ddatblygu sgiliau a chefnogi gwirfoddoli fel arwydd pwysig o ddinasyddiaeth.

Cymorth i gydlynwyr gwirfoddolwyr

Nid yw hi bob amser yn hawdd lleoli pobl mewn gwaith gwirfoddol, am sawl rheswm. Serch hynny, mae recriwtio a chynnal criw amrywiol o wirfoddolwyr sy'n adlewyrchu'r gymuned a wasanaethir yn nod y mae mudiadau'n ymdrechu i'w gyflawni. Bydd cydlynwyr gwirfoddolwyr yn ystyried datblygiad criw amrywiol o wirfoddolwyr yn llwyddiant mawr, a hynny gyda chyfiawnhad. Dylid darparu ar gyfer cydlynwyr gwirfoddolwyr gymorth a goruchwyliaeth sy'n cydnabod yr heriau y byddant yn eu hwynebu ac sy'n rhoi cyfle iddynt drafod unrhyw broblemau. Gallwch holi'r tîm Gwirfoddoli yn eich Cyngor Gwirfoddol Sirol (CGS) ynglŷn ag ymuno â fforwm gwirfoddoli lleol a fydd yn cwrdd yn rheolaidd i edrych ar arfer gorau wrth reoli gwirfoddolwyr. Byddwch yn gallu tynnu ar arbenigedd a phrofiad rheolwyr gwirfoddolwyr yn eich ardal.

Mae'r safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yn cydnabod pwysigrwydd gwaith a wneir i wella cymorth ar gyfer gwirfoddolwyr, gan gynnwys y rheini ag anghenion ychwanegol neu'r rheini y gellir eu diffinio'n 'anos eu gosod'.

Ceir nifer o fudiadau cenedlaethol a lleol a all gynnig gwybodaeth a hyfforddiant ar arfer da ar gyfer cefnogi rhai gydag anghenion penodol. Cysylltwch â'ch CGS lleol i weld pa gymorth sydd ar gael. Efallai fod yna gyfeiriadur neu fudiadau lleol a all ddarparu cymorth arbenigol.

Mae gan bob CGS swyddogion datblygu gwirfoddoli a all eich cynorthwyo i edrych ar ffyrdd o ddatblygu rolau gwirfoddol, systemau cefnogi a goruchwyllo gwirfoddolwyr ac ystyried ffyrdd arloesol o ddarparu hyfforddiant i ddiwallu anghenion gwahanol.

Dysgu o brofiad

Yn 2010-2012 cydlynodd WCVA brosiect ymchwil gweithredol ledled Cymru, a ariannwyd gan y Gronfa Loteri Fawr, a oedd yn ceisio cydlynu'r hyn a ddysgai pob CGS wrth weithio gyda gwirfoddolwyr 'anos eu gosod'.

Edrychodd y prosiect ar wahanol fathau o gymorth a allai godi'r tebygolrwydd o wirfoddoli llwyddiannus i'r rheini ag anghenion cymorth ychwanegol a / neu sy'n ddi-waith.

Mae'r hyn sy'n dilyn yn grynodeb o'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect hwn ond mae'r adnoddau llawn ar gael ar [wefan WCVA](#).

Gwella'ch gallu i gefnogi gwirfoddolwyr

- Darparu hyfforddiant priodol i gydlynwyr gwirfoddolwyr i'w galluogi i deimlo'n hyderus ynglŷn â chefnogi eu gwirfoddolwyr yn y modd gorau posib, gan gynnwys hyfforddiant ar amrywiaeth.
- A allwch drefnu digwyddiadau paratoadol ar gyfer gwirfoddoli megis diwrnodau agored gydag amser i fynd o amgylch y lleoliad gwirfoddoli a chwrdd â'r cydlynnydd gwirfoddolwyr. Neu gynnal sesiynau blasu i bobl roi cynnig ar wirfoddoli.
- Darparu cyfleoedd i bobl siarad â gwirfoddolwyr ac efallai gwrdd â gwirfoddolwyr presennol wedi'u hyfforddi i gynorthwyo pobl drwy'r broses ymgeisio a chynefino. Mewn rhai achosion, gall cymorth o'r fath fod yn ddefnyddiol am gyfnodau hirrach hefyd. Os gellir cynnwys mentoriaid, cyfeillion, neu weithwyr cymorth, bydd hyn yn annog gwirfoddolwyr llai hyderus i ymgeisio, ac yn eu galluogi i fwynhau eu hyfforddiant cynefino a'u gwaith gwirfoddol.
- Gallech lenwi ffurflen gais gwirfoddolwyr wrth ei thrafod â darpar gwirfoddolwr. Mae hyn o gymorth yn enwedig i'r rheini nad yw Cymraeg na Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, sydd ag anghenion sgiliau sylfaenol, nam ar eu golwg neu ddiffyg hyder yn gyffredinol gyda ffurflenni. Ar ôl y cyfarfod i lenwi'r ffurflen, argymhellir ffonio'r darpar wirfoddolwr, i wneud yn siwr bod popeth yn iawn ac ailadrodd gwybodaeth bwysig.
- A allwch gyfeirio darpar wirfoddolwr at wasanaethau cymorth yn eich ardal a all roi cymorth ychwanegol iddo a fydd yn ei gwneud yn bosib iddo wirfoddoli?
- Cofiwch fod yn ymwybodol o ba mor hygyrch yw'ch cyfleusterau, eich adeilad a'ch lleoliad, gan gynnwys mynediad drwy drafndiaeth gyhoeddus. A yw'ch gwybodaeth ar gael mewn fformatau gwahanol?
- Bod yn realistig am eich gallu a'ch maint. Faint o wirfoddolwyr allwch eu cefnogi? A ydych am greu rhestr aros ar gyfer darpar wirfoddolwyr ... os felly cofiwch ddiweddarau pobl am statws eu cais a pham rydych yn gofyn iddynt aros.
- Bod yn hyblyg am rolau. Efallai y gallwch ddylunio rôl yn benodol ar gyfer rhywun yn unol â'i anghenion, ei ymrwymiad a'i argaeledd.
- Darparu gwybodaeth i ddarpar wirfoddolwyr sy'n hawlio budd-daliadau ynglŷn â gwirfoddoli tra'n derbyn budd-daliadau (gweler Taflen wybodaeth 4.12).
- Mae sesiynau cefnogi gwirfoddolwyr, hyfforddiant, goruchwyliaeth barhaus, a chyfleoedd i fod yn rhan o benderfyniadau a / neu i fynegi barn yn bwysig ar gyfer pob gwirfoddolwr gan gynnwys y rheini ag anghenion ychwanegol. Gallech ystyried ffyrdd arloesol sy'n gweddu i anghenion eich gwirfoddolwyr penodol megis sesiynau mewn parau, mewn grwpiau neu un wrth un.
- Gellir addasu hyfforddiant cynefino i'w gynnal, er enghraifft, mewn sesiynau byrrach. Dylai pob dogfen fod mewn fformat sy'n gweddu i anghenion y gwirfoddolwr.

- Dylai astudiaethau achos, pamffledi a'ch gwefan ddangos lluniau ac enghreifftiau o wirfoddolwyr amrywiol. Rhowch gyhoeddusrwydd da i enghreifftiau o wirfoddolwyr yn eich mudiad sydd ag anghenion cymorth ychwanegol. Mae hyn yn fodd o ddangos eich ymrwymiad i recriwtio criw amrywiol o wirfoddolwyr. Mae hyn yn ei dro yn annog pobl i ystyried eich mudiad yn un croesawgar a chynhwysol.

Gwybodaeth Bellach

Mae'r [Safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr](#) yn ei gwneud yn ofynnol i fudiadau fod yn agored i gynnwys gwirfoddolwyr o ystod eang o gefndiroedd a galluoedd ac ymrwymo'r adnoddau angenrheidiol (Dangosydd 3.1) ac os yw'n bosib fod tasgau'n cael eu haddasu i weddu i anghenion, galluoedd a diddordebau gwirfoddolwyr unigol (Dangosydd 4.4). Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fudiadau geisio cynyddu amrywiaeth a chynrychiolaeth o'r gymuned leol (Dangosydd 3.3)

Dyma wirfoddolwr a chydlynedd gwirfoddolwyr [Fferm Gymunedol Abertawe](#) yn trafod, mewn fideo byr, eu ffordd o gefnogi gwirfoddolwyr.

Gweler y taflenni gwybodaeth eraill:

4.6 [Cydraddoldeb ac Amrywiaeth](#)

4.7 [Sut i sicrhau bodlonrwydd gwirfoddolwyr](#)

4.12 [Gwirfoddolwyr a budd-daliadau lles](#)

4.17 [Deall iechyd meddwl a gwirfoddoli](#)

4.22 [Rheoli ymadawiadau gwirfoddolwyr](#)

Adnoddau WCVA

[Hyrwyddo Cydraddoldeb ac Amrywiaeth mewn Gwirfoddoli](#), Canllaw ar gyfer Mudiadau sy'n Cynnwys Gwirfoddolwyr yng Nghymru
[Recriwtio gwirfoddolwyr, llawlyfr ymarfer da](#)

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffacs: 01286 678430

www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

Wedi ei ddiweddarau: 14/09/2016



Ffôn: 0800 2888 329

www.wcva.org.uk